

## **Cyfrifeg a Chyllid**

Amser: 1.5 awr (90 munud)

**Atebwch Bob Cwestiwn**

**TROSODD**

## Cwestiwn 1

Dewiswch yr ateb cywir i bob un o'r cwestiynau canlynol a'i ysgrifennu yn y llyfryn ateb.

**10 cwestiwn amlddewis – gwerth 1 marc sydd i bob cwestiwn (10 marc)**

- 1) Fel arfer ni fyddai busnes yn ymgymryd â phrosiect newydd heblaw y cyfrifir bod ei Werth Presennol Net (NPV):
  - (a) yn negyddol
  - (b) ar sero
  - (c) yn bositif
  - (d) Â'r un ffigur â'r prosiectau sydd eisoes yn bodoli
  
- 2) P'un o'r rhai isod NAD yw'n bennawd safonol ar Ddatganiad o Lif Arian Parod?
  - (a) Gweithgareddau Gweithredu
  - (b) Gweithgareddau Gerio
  - (c) Gweithgareddau Buddsoddi
  - (d) Gweithgareddau Cyllido
  
- 3) Ecwiti + Rhwymedigaethau =.....?  
Pa derm ddylai fod yn y bwlch?
  - (a) Cyfanswm yr Asedau.
  - (b) Incwm
  - (c) Asedau Sefydlog.
  - (d) Asedau Cyfredol.
  
- 4) Sut fyddech chi'n cyfrifo elw neu golled gros cwmni?
  - (a) Cyfanswm y refeniw namyn cost y gwerthiannau.
  - (b) Cyfanswm y refeniw namyn cyfanswm y costau.
  - (c) Cyfanswm y refeniw namyn y costau gweinyddol.
  - (d) Cyfanswm y refeniw namyn y costau dosbarthu.

**TROSODD**

**(Parhad Cwestiwn 1)**

- 5) Os £40,000 yw balans agoriadol Symiau Derbyniadwy Masnachol (dyledwyr) a £45,000 yw balans cau Symiau Derbyniadwy Masnachol (dyledwyr), sut y byddai hyn yn effeithio ar y datganiad o lif arian parod?
- (a) Byddai'r llif o arian parod yn disgyn £40,000
  - (b) Byddai'r llif o arian parod yn cynyddu £45,000
  - (c) Byddai'r llif o arian parod yn disgyn £5,000
  - (d) Byddai'r llif o arian parod yn cynyddu £5,000
- 6) Gan gyfeirio at y dull ad-dalu, p'un o'r datganiadau canlynol NAD yw'n wir?
- (a) Mae'n anwybyddu'r llif arian parod dros oes gyfan y prosiect
  - (b) Mae'n cynnwys holl lif arian parod y prosiect
  - (c) Mae'n anwybyddu proffidioldeb cyflawn. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar yr amser a gymerir i ad-dalu'r gwariant cychwynnol.
  - (d) Mae'n cael ei weld yn fwy fel dull o asesu risg yn hytrach na ffordd o fesur adenillion.
- 7) P'un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio rhwymedigaeth gyfredol?
- (a) Asedau cwmni y disgwylir iddynt gael eu defnyddio am fwy na blwyddyn.
  - (b) Rhwymedigaethau a restrir ar y fantolen sy'n ddyledus am fwy na blwyddyn.
  - (c) Rhwymedigaethau ariannol byrdymor y cwmni sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.
  - (d) Ased posib y gellir ei brynu yn y dyfodol.
- 8) P'un o'r ffynonellau cyllid isod sy'n cael ei defnyddio at ddefnydd byrdymor yn bennaf?
- (a) Ffactoreiddio dyledion.
  - (b) Cyfalaf cyfranddaliadau.
  - (c) Gwerthu adeiladau.
  - (d) Benthyciad hirdymor.
- 9) P'un o'r rhai isod nad yw'n ased cyfredol?
- (a) Stocrestrau.
  - (b) Symiau derbyniadwy masnachol.
  - (c) Rhagdaliad.
  - (d) Gorddrafft y banc.

**(Parhad Cwestiwn 1)**

10) Mae'r gymhareb Sydyn yn hepgor pa ased?

- (a) Arian parod.
- (b) Symiau derbyniadwy masnachol.
- (c) Mae'n hepgor pob ased.
- (d) Stocrestrau.

**Diwedd cwestiwn 1**

**TROSODD**

## Cwestiwn 2 (50 marc)

Dyma fantolen brawf i Pyramids Cyf, cwmni bach sy'n gwneud dillad plant, i'r flwyddyn sy'n dod i ben ar 31/03/2024:

	£'000	£'000
	Debyd	Credyd
Costau gweinyddu	710	
Gwerthiannau		6,000
Costau dosbarthu	200	
Llog a dalwyd	30	
Pryniadau	2,800	
Banc (Gorddrafft)		200
Dibrisio cronedig ar geir hyd at 31/3/2024		30
Ceir yn ôl y gost	60	
Credydwyr		210
Benthyciad Banc		60
Tir ac adeiladau	3,000	
Dibrisio cronedig ar gyfarpar ac offer hyd at 31/3/2023		200
Cyfarpar ac offer yn ôl y gost	850	
Elw a gedwir ar 31/3/2023		500
Cronfa ailbriso ar 31/03/2024		300
Cyfalaf cyfranddaliadau (cyfranddaliadau cyffredin £1.00)		2,000
Stoc ar 31/03/2024	1,300	
Dyledwyr masnach	550	
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>9,500</u></b>	<b><u>9,500</u></b>

**TROSODD**

## **(Parhad Cwestiwn 2)**

Daeth i'r amlwg nad oedd y trafodion isod wedi'u cynnwys wrth baratoi'r fantolen brawf hon:

- 1) Ar ôl asesiad terfynol o'r stoc ar 31/03/2024, prisiwyd y stoc ar y swm isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net ar £1,340,000 (cyn ystyried trafodyn (2)).
- 2) Yn asesiad stoc terfynol y flwyddyn, canfuwyd bod gwerth £70,000 o'r stoc wedi'i ddifrodi. Dim ond am sgrap y gellir gwerthu'r stoc honno, a hynny am £40,000.
- 3) Dyroddodd y cwmni 100,000 o gyfranddaliadau am £2.00 fesul cyfranddaliad ar 31/03/2024. Roedd hyn yn cynnwys 50c o bremiwm cyfranddaliadau.
- 4) Talwyd y rhent blynyddol am warws, sef £24,000, ar 31/12/2023. Rhoddwyd yr anfoneb hon i'r costau gweinyddu ac fe ddechreuodd y cyfnod llogi ar 01/01/2024.
- 5) Roedd y bil trydan diwethaf i'w gynnwys yn y costau gweinyddu yn ymwneud â'r chwe mis a ddaeth i ben ar 30/11/2023. Amcangyfrifir bod y cwmni'n defnyddio £2,000 o drydan fesul mis.

Dangoswch sut y byddai'r trafodion uchod yn newid y datganiadau ariannol.

### **Mae angen**

- a) Defnyddio'r holl wybodaeth o bwynt 1 i 5 i ddangos yn glir yr addasiadau sydd eu hangen i'r fantolen brawf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/2024. (20 marc)
- b) O'ch gwaith yn rhan a) uchod, paratowch Fantolen a Datganiad Incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/2024. (30 marc)

**Cyfanswm 50 marc**

## **Diwedd cwestiwn 2**

**TROSODD**

**Cwestiwn 3 (20 marc)**

- a) Nodwch fanteision a chyfyngiadau defnyddio dadansoddiad cymarebau. **(6 marc)**
  
- b) Trafodwch yn gryno beth yw diben cyfrifo cymhareb y diwrnodau symiau derbyniadwy masnachol. **(4 marc)**
  
- c) Trafodwch yn gryno'r hyn sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiadau blynyddol cwmnïau. **(4 marc)**
  
- d) Trafodwch dri gwahaniaeth rhwng cyfrifeg ariannol a chyfrifeg rheoli. **(6 marc)**

**Cyfanswm 20 marc**

**TROSODD**

### **Cwestiwn 4 (20 marc)**

Mae'r data yn y tabl isod yn dangos y canlyniadau ariannol disgwylidig o fuddsoddiad mewn offer newydd.

Blwyddyn	Llif arian net Prosiect A (£'000)	Llif arian net Prosiect B (£'000)	Cyfradd y ffactor disgownt i gyfrifo'r Gwerth Presennol Net (NPV) (10%)
0	(350)	(400)	1.00
1	100	70	0.909
2	120	90	0.826
3	130	110	0.751
4	80	130	0.683
5	65	150	0.621

### **Mae angen:**

Ateb y cwestiynau canlynol a dangos yn glir y camau a gymerasoch i ddod i'ch ateb:

- a) Ar sail y data a gynhwysir yn y tabl uchod, cyfrifwch y cyfnod ad-dalu i'r buddsoddiad. **(6 marc)**
  
- b) Ar sail y data sydd yn y tabl uchod, cyfrifwch y Gwerth Presennol Net (NPV) i'r buddsoddiad. **(10 marc)**
  
- c) Rhwch sylwadau am eich canlyniadau i'r rhannau (a) a (b) uchod. **(4 marc)**

**Cyfanswm 20 marc**

**DIWEDD Y PAPUR**

Table 1: Present value of 1 unit received  $n$  periods in the future assuming a constant discount rate of  $r$  per period

$r \backslash n$	1%	2%	3%	4%	5%	6%	7%	8%	9%	10%	11%	12%	13%	14%	15%	16%	17%	18%	19%	20%	21%	22%	23%	24%	25%	30%	35%	40%
1	0.990	0.980	0.971	0.962	0.952	0.943	0.935	0.926	0.917	0.909	0.901	0.893	0.885	0.877	0.870	0.862	0.855	0.847	0.840	0.833	0.826	0.820	0.813	0.806	0.800	0.769	0.741	0.714
2	0.980	0.961	0.943	0.925	0.907	0.890	0.873	0.857	0.842	0.826	0.812	0.797	0.783	0.769	0.756	0.743	0.731	0.718	0.706	0.694	0.683	0.672	0.661	0.650	0.640	0.592	0.549	0.510
3	0.971	0.942	0.915	0.889	0.864	0.840	0.816	0.794	0.772	0.751	0.731	0.712	0.693	0.675	0.658	0.641	0.624	0.609	0.593	0.579	0.564	0.551	0.537	0.524	0.512	0.455	0.406	0.364
4	0.961	0.924	0.888	0.855	0.823	0.792	0.763	0.735	0.708	0.683	0.659	0.636	0.613	0.592	0.572	0.552	0.534	0.516	0.499	0.482	0.467	0.451	0.437	0.423	0.410	0.350	0.301	0.260
5	0.951	0.906	0.863	0.822	0.784	0.747	0.713	0.681	0.650	0.621	0.593	0.567	0.543	0.519	0.497	0.476	0.456	0.437	0.419	0.402	0.386	0.370	0.355	0.341	0.328	0.269	0.223	0.186
6	0.942	0.888	0.837	0.790	0.746	0.705	0.666	0.630	0.596	0.564	0.535	0.507	0.480	0.456	0.432	0.410	0.390	0.370	0.352	0.335	0.319	0.303	0.289	0.275	0.262	0.207	0.165	0.133
7	0.933	0.871	0.813	0.760	0.711	0.665	0.623	0.583	0.547	0.513	0.482	0.452	0.425	0.400	0.376	0.354	0.333	0.314	0.296	0.279	0.263	0.249	0.235	0.222	0.210	0.159	0.122	0.095
8	0.923	0.853	0.789	0.731	0.677	0.627	0.582	0.540	0.502	0.467	0.434	0.404	0.376	0.351	0.327	0.305	0.285	0.266	0.249	0.233	0.218	0.204	0.191	0.179	0.168	0.123	0.091	0.068
9	0.914	0.837	0.766	0.703	0.645	0.592	0.544	0.500	0.460	0.424	0.391	0.361	0.333	0.308	0.284	0.263	0.243	0.225	0.209	0.194	0.180	0.167	0.155	0.144	0.134	0.094	0.067	0.048
10	0.905	0.820	0.744	0.676	0.614	0.558	0.508	0.463	0.422	0.386	0.352	0.322	0.295	0.270	0.247	0.227	0.208	0.191	0.176	0.162	0.149	0.137	0.126	0.116	0.107	0.073	0.050	0.035
11	0.896	0.804	0.722	0.650	0.585	0.527	0.475	0.429	0.388	0.350	0.317	0.287	0.261	0.237	0.215	0.195	0.178	0.162	0.148	0.135	0.123	0.112	0.103	0.094	0.086	0.056	0.037	0.025
12	0.887	0.788	0.701	0.625	0.557	0.497	0.444	0.397	0.356	0.319	0.286	0.257	0.231	0.208	0.187	0.168	0.152	0.137	0.124	0.112	0.102	0.092	0.083	0.076	0.069	0.043	0.027	0.018
13	0.879	0.773	0.681	0.601	0.530	0.469	0.415	0.368	0.326	0.290	0.258	0.229	0.204	0.182	0.163	0.145	0.130	0.116	0.104	0.093	0.084	0.075	0.068	0.061	0.055	0.033	0.020	0.013
14	0.870	0.758	0.661	0.577	0.505	0.442	0.388	0.340	0.299	0.263	0.232	0.205	0.181	0.160	0.141	0.125	0.111	0.099	0.088	0.078	0.069	0.062	0.055	0.049	0.044	0.025	0.015	0.009
15	0.861	0.743	0.642	0.555	0.481	0.417	0.362	0.315	0.275	0.239	0.209	0.183	0.160	0.140	0.123	0.108	0.095	0.084	0.074	0.065	0.057	0.051	0.045	0.040	0.035	0.020	0.011	0.006
16	0.853	0.728	0.623	0.534	0.458	0.394	0.339	0.292	0.252	0.218	0.188	0.163	0.141	0.123	0.107	0.093	0.081	0.071	0.062	0.054	0.047	0.042	0.036	0.032	0.028	0.015	0.008	0.005
17	0.844	0.714	0.605	0.513	0.436	0.371	0.317	0.270	0.231	0.198	0.170	0.146	0.125	0.108	0.093	0.080	0.069	0.060	0.052	0.045	0.039	0.034	0.030	0.026	0.023	0.012	0.006	0.003
18	0.836	0.700	0.587	0.494	0.416	0.350	0.296	0.250	0.212	0.180	0.153	0.130	0.111	0.095	0.081	0.069	0.059	0.051	0.044	0.038	0.032	0.028	0.024	0.021	0.018	0.009	0.005	0.002
19	0.828	0.686	0.570	0.475	0.396	0.331	0.277	0.232	0.194	0.164	0.138	0.116	0.098	0.083	0.070	0.060	0.051	0.043	0.037	0.031	0.027	0.023	0.020	0.017	0.014	0.007	0.003	0.002
20	0.820	0.673	0.554	0.456	0.377	0.312	0.258	0.215	0.178	0.149	0.124	0.104	0.087	0.073	0.061	0.051	0.043	0.037	0.031	0.026	0.022	0.019	0.016	0.014	0.012	0.005	0.002	0.001
21	0.811	0.660	0.538	0.439	0.359	0.294	0.242	0.199	0.164	0.135	0.112	0.093	0.077	0.064	0.053	0.044	0.037	0.031	0.026	0.022	0.018	0.015	0.013	0.011	0.009	0.004	0.002	0.001
22	0.803	0.647	0.522	0.422	0.342	0.278	0.226	0.184	0.150	0.123	0.101	0.083	0.068	0.056	0.046	0.038	0.032	0.026	0.022	0.018	0.015	0.013	0.011	0.009	0.007	0.003	0.001	0.001
23	0.795	0.634	0.507	0.406	0.326	0.262	0.211	0.170	0.138	0.112	0.091	0.074	0.060	0.049	0.040	0.033	0.027	0.022	0.018	0.015	0.012	0.010	0.009	0.007	0.006	0.002	0.001	0.000
24	0.788	0.622	0.492	0.390	0.310	0.247	0.197	0.158	0.126	0.102	0.082	0.066	0.053	0.043	0.035	0.028	0.023	0.019	0.015	0.013	0.010	0.008	0.007	0.006	0.005	0.002	0.001	0.000
25	0.780	0.610	0.478	0.375	0.295	0.233	0.184	0.146	0.116	0.092	0.074	0.059	0.047	0.038	0.030	0.024	0.020	0.016	0.013	0.010	0.009	0.007	0.006	0.005	0.004	0.001	0.001	0.000
26	0.772	0.598	0.464	0.361	0.281	0.220	0.172	0.135	0.106	0.084	0.066	0.053	0.042	0.033	0.026	0.021	0.017	0.014	0.011	0.009	0.007	0.006	0.005	0.004	0.003	0.001	0.000	0.000
27	0.764	0.586	0.450	0.347	0.268	0.207	0.161	0.125	0.098	0.076	0.060	0.047	0.037	0.029	0.023	0.018	0.014	0.011	0.009	0.007	0.006	0.005	0.004	0.003	0.002	0.001	0.000	0.000
28	0.757	0.574	0.437	0.333	0.255	0.196	0.150	0.116	0.090	0.069	0.054	0.042	0.033	0.026	0.020	0.016	0.012	0.010	0.008	0.006	0.005	0.004	0.003	0.002	0.002	0.001	0.000	0.000
29	0.749	0.563	0.424	0.321	0.243	0.185	0.141	0.107	0.082	0.063	0.048	0.037	0.029	0.022	0.017	0.014	0.011	0.008	0.006	0.005	0.004	0.003	0.002	0.002	0.002	0.000	0.000	0.000
30	0.742	0.552	0.412	0.308	0.231	0.174	0.131	0.099	0.075	0.057	0.044	0.033	0.026	0.020	0.015	0.012	0.009	0.007	0.005	0.004	0.003	0.003	0.002	0.002	0.001	0.000	0.000	0.000